## Bwrdd S4C

Cyfarfod 474
11:30, 12 Rhagfyr 2024
Stadiwm Principality, Caerdydd

## COFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Guto Bebb [GB], Cadeirydd y Bwrdd
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Geraint Evans [GE], Prif Swyddog Cynnwys (dros dro)
- Adele Gritten [AdG], Aelod Anweithredol
- Chris Jones [CJ], Aelod Anweithredol
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Sioned Wiliam [SW], Prif Weithredwr (dros dro)

Eraill oedd yn bresennol:

- Nadine Beaton [NaB], darpar-Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant
- Nia Bennett [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (dros dro)
- Manon Edwards Ahir [MEA], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata
- Dewi Evans [DE], Rheolwr Prosiectau
- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd Bwrdd S4C
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid
- Carwyn Donavan [CD], Swyddog Trafodaethau BECTU
- Anna Huws [AH], Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol
- Lleucu Lynch [LlL], Uwch Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol
- Siân Lloyd [SL], Dirprwy Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd NaB i'r cyfarfod – roedd yn mynychu i arsylwi cyn cychwyn fel Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant S4C yn y flwyddyn newydd. Diolchodd hefyd i NB am ei gwaith dros dro yn y swydd honno dros y misoedd diwethaf, a'r ffordd yr oedd wedi dechrau trawsnewid yr Adran Pobl a Diwylliant.<br><br>Nodwyd bod aelodau a mynychwyr y Tîm Rheoli yn bresennol trwy gydol y cyfarfod, yn sgil penderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod diwethaf i'w gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd o hyn allan.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd**<br><br>Cyfweliadau Prif Weithredwr<br><br>Fe wnaeth GB longyfarch GE yn wresog ar ei swydd benodiad fel Prif Weithredwr S4C, yn dilyn cyfres o gyfweliadau trwyadl ar 08 Tachwedd 2024. Byddai GE yn cychwyn yn y swydd honno ar 01 Ionawr 2025. | |

<table>
<tr><td></td><td>Wrth ddiolch iddi wrth i'w chyfnod fel Prif Weithredwr dros dro ddod i ben, gwnaeth holl aelodau'r Bwrdd dymuno'n dda i SW i'r dyfodol.<br><br><u>Ymwneud â Rhanddeiliaid</u><br><br>Amlinellodd GB y cyfarfodydd neu ddigwyddiadau yr oedd wedi mynychu gyda rhanddeiliaid ers y cyfarfod diwethaf, oedd yn cynnwys:<ul><li>Derbyniad y darlledwyr cyhoeddus o Gymru yn San Steffan ar 13 Tachwedd 2024.</li><li>Cyfarfod chwarterol rhwng S4C a'r DCMS yn Llundain ar 26 Tachwedd.</li><li>Cyfarfod gyda Jack Sargeant AS, Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, ar 04 Rhagfyr.</li></ul><u>Cyfarfod rhwng cadeiryddion pwyllgorau archwilio S4C a'r BBC</u><br><br>Ar wahoddiad GB, adroddodd CJ iddo ef a GP gwrdd gyda Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC, Chris Jones, yn Llundain ar 11 Rhagfyr 2024. Roedd yn gyfarfod adeiladol ac roedd Chris Jones (y BBC) yn awyddus iawn i gael cysylltiad uniongyrchol gyda Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg S4C i'r dyfodol.<br><br><u>Sesiwn y Bwrdd gyda Dr Ioan</u><br><br>Adroddwyd i aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli gynnal sesiwn hyfforddiant gan Dr Ioan Rees o gwmni Sycol y bore hwnnw. Yn ystod y cyfarfod, cafwyd cyfle i ystyried Cod Diwylliant newydd S4C yr oedd y Tîm Rheoli, gyda chefnogaeth Dr Ioan, wedi bod yn cyflwyno i staff S4C. Yn benodol, trafodwyd ffyrdd o sicrhau bod y Bwrdd hefyd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion newydd.</td><td></td></tr>
<tr><td><br><br>3.</td><td>[Ymunodd SL, LlL ac AH â'r cyfarfod]<br><br>Cyflwyniad: Diweddariad ar berfformiad S4C ar gyfryngau cymdeithasol ac YouTube<br><br>Cyflwynodd LlH ac AH ar weithgareddau S4C ar y cyfryngau cymdeithasol ac YouTube, a sut yr ydym yn mesur perfformiad ein cynnwys ar y llwyfannau hynny. Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad diddorol a safonol.<br><br>Wrth drafod y cyflwyniad, holwyd am gynlluniau S4C o ran cael presenoldeb ar y llwyfan cymdeithasol BlueSky. Atebwyd bod S4C yn dysgu gwersi gan gyd-ddarlledwyr sydd hefyd yn aelodau o'r EBU ar bryd i gael presenoldeb ar lwyfannau newydd. Er nad ydym yn weithgar ar lwyfan BlueSky eto, mae cyfrifon wedi eu creu i ddiogelu brand S4C yno i'r dyfodol.<br><br>Yn hanesyddol, nodwyd bod cyfryngau cymdeithasol yn cael ei gweld fel rhywbeth i hyrwyddo cynnwys llinol - ond nid dyna'r sefyllfa mwyach. Dyma le mae'r genhedlaeth iau yn gwylio eu cynnwys. Datganwyd yng nghyfarfod chwarterol gyda'r DCMS bod defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan o arlwy cynnwys S4C.<br><br>Holwyd am y gyllideb ar gyfer cynnwys sy'n cael ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Esboniwyd nad yw'r tarddiad cyllid yn gwneud gwahaniaeth – comisiynu cynnwys addas yw'r brif flaenoriaeth, a bod y cyllidebau ar wahân sydd ar gyfer gwahanol genres ddim yn gwahaniaethu ar sail ble caiff y cynnwys ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y tîm cyfryngau cymdeithasol a'r comisiynwyr i sicrhau bod y cynnwys priodol yn cyrraedd y cynulleidfaoedd targed.</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Holodd SuD os oedd wybodaeth i gael ynghylch pwy yw gwylwyr ein cynnwys digidol? Atebodd GE bod yna llawer o ddata ar gael a bod S4C yn bwriadu adolygu ei threfniadau adrodd i adlewyrchu data gwylio digidol yn well.<br><br>O ran defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes ar gyfer yr ifanc yn benodol, mae Newyddion S4C yn creu cynnwys sy'n addas ar gyfer y platfform o dan sylw (e.e. TikTok). Fodd bynnag, er bod y cynnwys newyddion yn gyffredinol yn llwyddo i gyrraedd y gynulleidfa, roedd apêl cynnwys o'r fath yn fwy penodol yn ddibynnol ar y testun.<br><br>[Gadawodd SL, LlL ac AH y cyfarfod] | |
| 4. | **Adroddiad y Tîm Rheoli**<br><br>Cyflwynodd SW yr adroddiad, gydag aelodau eraill y Tîm Rheoli yn cyflwyno'r elfennau oedd roedd ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar bynciau yn cynnwys: Cynnwys (uchafbwyntiau diweddar, y dashfwrdd misol diweddaraf, adborth drwy'r Wifren, adborth trwy weithgareddau i ganfod barn y gynulleidfa, a blaenoriaethau'r cyfnod nesaf); Cyfathrebu a Marchnata; Pobl a Diwylliant; Cyllid; Risg; ac S4C Masnachol.<br><br>Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Bwrdd. Wrth wneud hynny, canolbwyntwyd ar rai elfennau penodol.<br><br><u>Cynnwys</u><br><br>Wrth amlinellu cynnwys diweddar S4C, nododd GE:<br>• I Cleddau brofi llwyddiant aruthrol, y ddrama S4C gyda'r ffigurau gwylio uchaf erioed ar iPlayer.<br>• Bod gemau rygbi'r Hydref wedi dychwelyd i S4C, yn 'exclusive free to air', ac yn gwneud yn eithriadol o dda.<br>• Pasiwyd y pwynt ym mis Hydref lle'r oedd dros 20% o wylio cynnwys S4C nawr yn digwydd yn ddigidol.<br><br>Adroddodd GE bod ganddo gyfarfod gyda'r BBC ble bydd gofynion S4C o ran yr iPlayer yn cael eu trafod.<br><br><u>Risg</u><br><br>Gan nad oedd unrhyw risgiau wedi eu nodi yn yr adroddiad, pwysleisiodd SuD pwysigrwydd sicrhau bod ystyriaethau risg yn rhan greiddiol o'r diwylliant o hyn allan.<br><br><u>Pobl a Diwylliant</u><br><br>Nodwyd bod gwelliannau ar y gweill yn swyddfa Caernarfon. Mae S4C mewn trafodaethau gyda'r BBC i wella swyddfa Caerdydd hefyd ond bydd angen wneud gwell defnydd o ardaloedd eraill oddi fewn i adeilad Sgwâr Canolog. | |
| 5. | **Diweddariad Pobl a Diwylliant**<br><br>Cyflwynodd NB yr adroddiad oedd yn cynnwys ystadegau'r gweithlu am 2024, y cynlluniau at gyfer hyfforddiant y gweithlu ar gyfer 2025 ynghyd a throsolwg o ganlyniadau arolwg pwls staff a gynhaliwyd 12–25 Tachwedd 2024.<br><br>Wrth gyflwyno, nododd NB nad oedd consyrn o ran absenoldeb salwch byrdymor. Er bod peth absenoldeb hirdymor, roedd rhesymau dilys drostynt. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd canlyniadau'r arolwg staff wedi'i drafod gyda'r Fforwm Staff. Ar gais y Fforwm, byddai'r Tîm Rheoli yn llunio beth fyddai ymateb S4C i'r hyn a godwyd yn yr arolwg cyn rhannu'r canlyniadau gyda'r staff yn ehangach.<br><br>Holodd DLP pryd fyddai'r arolwg pwls nesaf? Atebodd NB bod hi'n rhagweld byddai diwedd gwanwyn nesaf yn briodol er mwyn sefydlu patrwm o gynnal arolwg rhyw ddwywaith y flwyddyn. Nodwyd bod hi'n bwysig osgoi cynnal gormod o arolygon rhag ofn i staff laru, a bod yna ffyrdd eraill o gasglu adborth staff yn fwy aml. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol canfod adborth staff yn ystod 2025 ynghylch y gwaith i gyflwyno'r Cod Diwylliant.<br><br>Roedd gan DLP ddiddordeb yn statws yr archwiliad sgiliau oedd i'w gynnal ar draws y sefydliad. Nododd NB bod yr archwiliad sgiliau heb ddechrau eto oherwydd prinder staff yn yr Adran Pobl a Diwylliant, ond y byddai hyn yn rhan o'r rhaglen waith dros y cyfnod nesaf. Mae'r Tîm Rheoli yn ymwybodol bod angen adnabod pa sgiliau sydd gyda ni, pa sgiliau fydd eu hangen i'r dyfodol a pha hyfforddiant fydd eu hangen. Ond cyn gwneud hynny, mae angen hyfforddi rheolwyr llinell a sicrhau bod ganddynt y capasiti i gyfrannu i hyn. | |
| <br><br>6. | [Ymunodd CD â'r cyfarfod]<br><br>**Cyfarfod gyda chynrychiolwr Bectu**<br><br>Croesawyd CD i'r cyfarfod, yn unol â'r trefniant o gynnal trafodaeth flynyddol rhwng y Bwrdd a swyddog Bectu.<br><br>Amlinellodd SW ddatblygiadau diweddar yn S4C, gan ganolbwyntio ar y gwaith i gryfhau trefniadau pobl a diwylliant, ac adolygu trefniadau llywodraethiant mewnol. Ychwanegodd NB ei bod wedi bod yn diweddaru CD yn fisol ar ddatblygiadau. Dywedodd CD ei bod yn bleser cwrdd â'r Bwrdd dan amgylchiadau tawelach gan gydnabod bod S4C wedi bod drwy newid sylweddol. Teimlai Bectu fod y pryderon a godwyd wedi cael eu trin ac mai dim ond y materion arferol oedd ar ôl, fel yn achos pob sefydliad. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydnabod gweithwyr fel pobl yn hytrach nag adnoddau.<br><br>Ychwanegodd y byddai'n croesawu cael ei gopïo i mewn i ddiweddariadau a rennir gyda staff, er enghraifft, crynodeb argymhellion Darwin Gray, trafodaethau gyda'r Fforwm Staff ac ati.<br>Roedd CD yn awyddus i ymgysylltu â NaB i adolygu cytundeb cydnabod undebau llafur fel y byddai fframwaith cliriach ar gyfer trafod codiadau cyflog ac ati.<br><br>Diolchodd GB i CD am ymuno gyda ni.<br><br>[gadawodd CD y cyfarfod] | |
| 7. | **Trefniadau llywodraethu o 01 Chwefror 2025 ymlaen**<br><br>Yn sgil cais y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2024, roedd GP wedi llunio adroddiad cryno yn nodi'r camau sydd eu hangen i gynnal trefniadau llywodraethu priodol dros y misoedd nesaf pan fydd newid yn aelodaeth anweithredol y Bwrdd.<br><br>Roedd yr argymhellion yn cynnwys:<br>• Cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg cyn i dymhorau Chris Jones ac Adele Gritten ddod i ben ar 31 Ionawr 2025.<br>• Penodi Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.<br>• Penodi Aelod Annibynnol Arweiniol newydd.<br>• Diwygio dros dro y gofynion i gael dau o aelodau anweithredol y Bwrdd yn aelodau o Fwrdd y Grŵp Masnachol. | |

<table>
<tr><td></td><td>Penderfyniad: Cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 29 Ionawr 2025 (yn hytrach na 13 Chwefror 2025).<br><br>Penderfyniad: Penodi SuD fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar gyfer y cyfnod 01 Chwefror 2025 ymlaen.<br><br>Penderfyniad: Dileu gofynion Rheol Sefydlog 18.4 tan 30 Ebrill 2025 (ynghylch yr angen i gael o leiaf dau aelod anweithredol o'r Bwrdd fel cyfarwyddwyr y cwmnïoedd masnachol).<br><br>Penderfyniad: Penodi SuD fel Aelod Annibynnol Arweiniol am flwyddyn o 01 Chwefror 2025.<br><br>[gadawodd EM, LlP a DE y cyfarfod]</td><td></td></tr>
<tr><td>8.</td><td>Adroddiadau a gymeradwywyd / nodwyd heb yr angen am drafodaeth<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu</u><br><br>Penderfyniad: Cymeradwyo'r diweddariad i'w gyhoeddi ar y wefan.<br><br><u>Disgrifiadau swyddogaeth aelodau'r Bwrdd</u><br><br>Penderfyniad: Cymeradwyo'r disgrifiadau swyddogaeth newydd.<br><br><u>Cymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd 2025–26</u><br><br>Penderfyniad: Cymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd 2025–26<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>Penderfyniad: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 473, a gynhaliwyd ar 24/10/2024.<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u><br><br>Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.<br><br><u>Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd</u><br><br>Nodwyd yn ffurfiol y penderfyniadau a gymerwyd drwy ohebu ers y cyfarfod diwethaf.<br><br><u>Rhaglen Waith</u><br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf.</td><td></td></tr>
<tr><td>9.</td><td>Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn. Ni chodwyd unrhyw faterion newydd.<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 14/11/2024)</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | • Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 02/12/2024)<br><br>[gadawodd SuD y cyfarfod] | |
| 10. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod**<br><br><u>Penodi Prif Swyddog Cynnwys</u><br><br>Cafwyd diweddariad ar y broses o benodi Prif Swyddog Cynnwys, gan gynnwys y penderfyniad i sicrhau bod cymaint o unigolion addas â phosib yn cael cyfle i ymgeisio am y swydd. | |